SGILIAU GOROESI

yn y Gweithle

Y DIWYDIANT ADEILADU

The Basic Skills Agency

Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol

Sgiliau pob dydd ar safle adeiladu

- Codi a chario deunyddiau adeiladu trwm ar y ddaear ac ar ysgolion
- Defnyddio peiriannau
- Amcangyfrif faint o ddeunyddiau ac amser sydd eu hangen ar gyfer gwaith
- Mesur a chymysgu sment a phlastr
- Mesur a marcio pren a gwydr
- Clirio'r safle
- Gweithredu ar sail cyfarwyddiadau llafar



- Gweithredu yn unol â rhybuddion ac arwyddion diogelwch ar y safle
- Gwneud eich gwaith eich hun i adeiladu a gorffen adeiladau
- Cyfathrebu â chrefftwyr eraill i gydlynu gwaith



PA SGILIAU?

Siarad a Gwrando

- Gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau wyneb yn wyneb a dros y ffôn, e.e. gan oruchwyliwr, crefftwyr eraill, cwsmeriaid

- Rhoi esboniadau a chyfarwyddiadau clir i weithwyr eraill ar y safle, neu i'r cyhoedd, e.e. materion diogelwch, cynnydd y gwaith, eich anghenion am gymorth
- Siarad yn glir ac yn ddigon uchel i gael eich clywed ar y safle, e.e. rhoi rhybuddion diogelwch, rhoi cyfarwyddiadau manwl ynghylch symud/nôl deunyddiau



Darllen

- Cael gwybodaeth o dablau a siartiau, e.e. rhestrau prisiau, siartiau trawsnewid pwysau/hyd, arwyddion diogelwch
- Dilyn cyfarwyddiadau ysgrifenedig, e.e. ar gyfer defnyddio offer, rheoliadau iechyd a diogelwch, pacio deunyddiau
- Darllen gwybodaeth syml, e.e. nodiadau gan gydweithwyr, eitemau mewn cylchgronau masnach a chatalogau

Ysgrifennu

- Ysgrifennu'n glir ac yn gywir ar ffurflenni a chofnodion syml, e.e. cardiau gwaith, ffurflenni archebu, llyfr damweiniau
- Nodi negeseuon o alwadau ffôn, e.e. gan gydweithwyr, cwsmeriaid, cyflenwyr, archwilwyr a swyddogion eraill

Sgiliau Rhif

- Ysgrifennu rhifau'n glir i osgoi camgymeriadau, e.e. rhifau ffôn, symiau stoc, mesuriadau ar gynlluniau a darluniadau syml
- Amcangyfrif a chyfrif rhifau, e.e. briciau, darnau o goed, estyll, teils ac ati
- Amcangyfrif a mesur hyd, e.e. uchder waliau ac agorfeydd, hyd darn o goed, dimensiynau gwydr ar gyfer ffenestri
- Amcangyfrif a phwyso deunyddiau sych, e.e. tywod, sment, plastr, cerrig mân
- Amcangyfrif a mesur cyfaint hylif, e.e. hylif diddosi, hylif trin coed
- Cyfrifo arwynebedd a chyfaint, e.e. lloriau, llwybrau, waliau, sylfeini
- Amcangyfrif a mesur amser, e.e. i amserlennu gwaith, i ddarparu dyfynbrisiau, i gwblhau taflenni amser
- Defnyddio onglau syml, e.e. onglau sgwâr ar gyfer corneli a phethau fertigol ac onglau dynodedig ar gyfer goleddf y to

Sgiliau cyfathrebu sydd eu hangen i weithio yn y diwydiant adeiladu

- Darllen – deall gwybodaeth ysgrifenedig a graffigol syml, e.e. nodiadau a negeseuon, labeli a deunydd pacio, arwyddion iechyd a diogelwch, catalogau, cynlluniau a dyluniadau syml
- Ysgrifennu – nodiadau, negeseuon a ffurflenni syml, e.e. negeseuon ffôn, cofnodion llyfr damweiniau, archebion
- Siarad a Gwrando – siarad ag unigolion dros y ffôn ac wyneb yn wyneb â chydweithwyr, â chwsmeriaid ac ag aelodau'r cyhoedd, gweiddi ar y safle, rhoi a derbyn cyfarwyddiadau a rhybuddion

Sgiliau rhifedd sydd eu hangen i weithio yn y diwydiant adeiladu

- Rhifau – cofnodi rhifau a deall siartiau a thablau, e.e. rhifau ffôn, rhestrau stoc, cynlluniau a darluniadau adeiladu
- Mesuriadau – amcangyfrif, pwyso a mesur syml o hyd a chyfaint, e.e. deunyddiau gwlyb a sych, marcio coed a waliau
- Amser – amcangyfrif amser ac amserlennu'n gywir, e.e. amser i gwblhau gwaith, amserlennu gwahanol rannau o'r gwaith
- Cyfrifo – cyfrannau, arwynebedd, cyfaint ac onglau, e.e. cymysgedd tywod/sment, arwynebedd y gwaith, cyfaint concrit ar gyfer llenwi sylfeini, ongl to

I ddechrau gwaith neu i wneud CGC (NVQ) yn y diwydiant adeiladu, mae angen y lefelau canlynol o sgiliau sylfaenol:

- cyfathrebu ar Fynediad 3; (darllen ar Lefel 1);
- rhifedd ar neu yn uwch na Lefel 1.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol/The Basic Skills Agency, Commonwealth House, 1–19 New Oxford Street, London WC1A 1NU

Ffôn: 020 7405 4017
Ffacs: 020 7440 7770

ebost:ymholiadau@basic-skills.co.uk
www.sgiliau-sylfaenol-cymru.org

The Basic Skills Agency
Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol